Gwybodaeth bellach

Dyma gyfres o daflenni gwybodaeth sy'n ymhelaethu ar amcanion cynllunio lleol ar ffurf glir a chryno er mwyn hyrwyddo'r manteision o ddefnyddio dulliau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fach, effeithlonrwydd ynni a gwella safonau dylunio adeiladau.

Mae'r cyfarwyddyd yn ffurfio ystyriaeth bwysig wrth benderfynu holl geisiadau cynllunio perthnasol..

Dyma sydd ar gael ar hyn o bryd:

1 Cyflwyniad
2 Gwresogydd gofod solar goddefol
3 Trydan solar
4 Gwresogydd dwr solar
5 Ynni gwynt
6 Hydro-ynni
7 Ynni bio-más
8 Ynni sy'n tarddu o'r ddaear
9 Technoleg sy'n cynnwys gwell effeithlonrwydd ynni
10 Mesurau syml i arbed ynni yn y cartref
11 Gwybodaeth bellach

Mae'r daflen hon ar gael mewn fformatau hawdd eu darllen

a) Grantiau

Clear Skies

Mae hon yn rhaglen sy'n cael ei hariannu gan y llywodraeth a'i rheoli gan Sefydliad Ymchwil Adeiladau, sy'n darparu grantiau a chyngor i brosiectau ynni adnewyddadwy ar lefel unigol a chymunedol. Gall deiliaid tai gael grantiau rhwng £400 - £5,000 tra bo sefydliadau cymunedol nid er elw yn gallu cael hyd at £100,000.

Cyswllt:
www.clear-skies.org
ffôn: 08702 430930
e-bost: info@clear-skies.org

Solar PV

Caiff y sefydliad hwn ei gynnal ar ran y llywodraeth ac mae'n ceisio creu marchnad gynaliadwy a dichonadwy hirdymor ar gyfer systemau ffotofoltaidd solar. Mae arian grant ar gael ar gyfer prosiectau mewn cartrefi a phrosiectau mawr.

Cyswllt:
www.est.org.uk/housingbuildings/funding/solarpv
ffôn: 0800 2983978

Ynni Cymunedol

Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a'r Ymddiriedolaeth Garbon yn cynnal rhaglen gefnogi ar y cyd i ddarparu cyfarwyddyd ac arian i osod ac adnewyddu cynlluniau gwresogi cymunedol yn y sector cyhoeddus.

Cyswllt:
www.energy.est.org.uk/housingbuildings/funding/community
ffôn: 0870 8506085

Prosiectau Arloesol

Mae cynllun arloesi'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn cynnig cyllid a chefnogaeth dechnegol i awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a'u partneriaid prosiect i gynnal astudiaethau o ddichonoldeb prosiectau (hyd at 70% o'r gost i uchafswm o £3,000) a gweithredu prosiectau (hyd at 50% o'r gost i uchafswm o £50,000).

Cyswllt:
www.est.org.uk/housingbuildings/funding/innovative
ffôn: 0870 2412089

b) Cyngor

Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Cymru

Dyma sefydliad nid er elw a ariennir gan y llywodraeth a'r sector preifat i gyflawni defnydd cynaliadwy o ynni a gostwng allyriadau carbon deuocsid.

Cyswllt:
www.est.org.uk/housingbuildings/renewables
ffôn: 01443 845930
Ty Albion, Oxford Street, Nantgarw, Caerdydd CF15 7TR

Ymddiriedolaeth Garbon Cymru

Dyma gwmni annibynnol a ariennir gan y llywodraeth ac sy'n helpu busnesau a'r sector cyhoeddus i leihau allyriadau carbon a dal ar gyfleoedd masnachol mewn technoleg carbon isel.

Cyswllt:
www.carbontrust.co.uk
ffôn: 01443 845944
e-bost:
contactwales@thecarbontrust.co.uk
Ty Albion, Oxford Street, Nantgarw, Caerdydd CF15 7TR

Canolfan Gynghori Effeithlonrwydd Ynni Gogledd Cymru

Canolfan Gynghori Effeithlonrwydd Ynni Gogledd Cymru

Dyma ganolfan wybodaeth leol sy'n darparu cyngor am ddim am effeithlonrwydd ynni a gwybodaeth am grantiau i ddeiliaid tai.

Cyswllt:
www.est.org.uk/myhome/localadvice
ffôn: 0800 512012
e-bost: nwal@eeac.net

Cyswllt Cyngor am Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru (REAL Cymru)

Fe'i cynhelir mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Technoleg Amgen, ac mae'n sefydliad sy'n darparu cyngor am ddim a gwybodaeth am grantiau i brosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy yn eich cartref, eich gweithle neu'ch cymuned.

Cyswllt:
www.realcymru.org.uk
ffôn: 0845 3304940

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:
Polisi Cynllunio
Yr Adran Gynllunio
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Stryt y Lampint
Wrecsam
LL11 1AR
Ffôn: 01978 292013
www.wrecsam.gov.uk/cynllun

Mabwysiadwyd Ionawr 2006